Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel

Dyddiad: Dydd Llun, 5 Chwefror 2018

Amser: 13.45 – 17.13

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4506

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Nick Ramsay AC (Cadeirydd) Mohammad Asghar (Oscar) AC Neil Hamilton AC Vikki Howells AC Rhianon Passmore AC Adam Price AC Lee Waters AC
Tystion:	Mike Halstead, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Sophie Howe, Future Generations Commissioner Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru Liz Lucas, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Shan Morgan, Llywodraeth Cymru Eurgain Powell, Office of the Future Generations Commissioner Steve Robinson, Cyngor Caerdydd

	Andrew Slade, Llywodraeth Cymru Arwel Staples, Denbighshire County Council
Swyddfa Archwilio Cymru:	Anthony Barrett - Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol Matthew Mortlock Mike Usher
Staff y Pwyllgor:	Anthony Barrett Matthew Mortlock Mike Usher Fay Bowen (Clerc) Meriel Singleton (Ail Glerc) Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

3 Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

3.1 Bu'r Pwyllgor yn holi Shan Morgan, Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru; Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, Llywodraeth Cymru; ac Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys, Llywodraeth Cymru, ynghylch cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru.

3.2 Cytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol i ysgrifennu at y Cadeirydd i egluro nifer o bwyntiau a godwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

4 Caffael Cyhoeddus: Gohebiaeth y Pwyllgor

4.1 Nodwyd yr ymatebion.

5 Caffael Cyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth 1

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Liz Lucas, Pennaeth Caffael Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, a Steve Robinson, Pennaeth Caffael Cyngor Caerdydd, fel rhan o'r ymchwiliad i gaffael cyhoeddus.

5.2 Cytunodd Liz Lucas i anfon gwybodaeth am y mathau o nwyddau a gwasanaethau y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi'u prynu drwy fframwaith Gwasanaeth Masnachol y Goron ac am werth y nwyddau a'r gwasanaethau hyn.

6 Caffael Cyhoeddus: Sesiwn Dystiolaeth 2 (Drwy fideogynhadledd)

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Mike Halstead, Pennaeth Archwilio a Chaffael Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ac Arwel Staples, Rheolwr Caffael Strategol Cyngor Sir Ddinbych, fel rhan o'r ymchwiliad i gaffael cyhoeddus.

7 Caffael Cyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth 3

7.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, a Dr Eurgain Powell o Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fel rhan o'r ymchwiliad i gaffael cyhoeddus.

8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

8.1 Derbyniwyd y cynnig.

9 Caffael Cyhoeddus: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

9.1 Trafodwyd y dystiolaeth a ddaeth i law.

10 Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

10.1 Trafodwyd y dystiolaeth a ddaeth i law a chytunodd yr Aelodau y dylai'r Clercod baratoi adroddiad drafft y byddant yn ei drafod ynghyd â'r wybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.